



Y NEGESYDD

GORFFENNAF 2024

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 2024

**cymorth
cristnogol**


Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at lwyddiant gweithgareddau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Llwyddwyd i gasglu £7555.68 yn ardal Bangor: cyfanswm ardderchog o ystyried yr hinsawdd economaidd anodd yn ogystal â'r niferoedd llai oedd yn mynychu'r digwyddiadau. Yma yn Emaus swm y casgliad oedd £515. Diolch yn fawr iawn i bawb am gyfrannu mor hael.

Dechreuwyd yr wythnos gyda defosiwn a chinio bara a chaws ym Merea Newydd ar Ddydd Llun, Mai 13eg. Diolch i Llinos am gynorthwyo gyda'r oedfa ac i chwirydd parod Berea Newydd am baratoi'r lluniaeth. Nid oedd y gynulleidfa mor niferus ag a bu yn y gorffennol ond roedd pawb ddaeth yno wedi mwynhau'r cymdeithasu o gwmpas y byrddau.

Cafwyd arbrawf ar bnawn Dydd Mercher, Mai 15fed, gyda sesiwn o chwarae gemau bwrdd a gwneud jig-so yn neuadd Eglwys Sant Ioan gyda the prynhawn blasus i ddilyn. Unwaith eto siomedig oedd y gefnogaeth o ran nifer er bod y casgliad yn anrhydeddus iawn. Fe wnes i fwynhau chwarae Sgrabble Cymraeg am y tro cyntaf erioed - er mai John Wyn Jones ddaru ennill!

Gorffennodd yr wythnos gyda bore coffi yn Nhŷ Deiniol fore Sadwrn, Mai 18fed, ac awr o gasglu ar y stryd. Diolch yn fawr i Anne Jackson, Eglwys Sant Ioan, a John Wyn Jones, Berea Newydd, am ysgwyd bwced ger y Cloc. Diolch hefyd i Catrin, Elen, Carol ac Alys ar y stondinau ac i Dilwen a Sue yn y gegin. Braff oedd gweld pawb yn eistedd tu allan yn mwynhau'r tywydd braff. Rhaid i mi hefyd ddiolch i bawb gyfrannodd gacennau a phlanhigion i'r stondinau. Casglwyd £377.78.

Eleri Ll. Jones



OEDFAON A CHYFARFODYDD GORFFENNAF

Bore Sadwrn,	6 Gorffennaf, 10am tan 12pm	<i>Bore Coffi Masnach Deg</i>
Bore Sul,	7 Gorffennaf	<i>Oedfa gymun dan arweiniad y gweinidog</i>
Pnawn Mawrth,	9 Gorffennaf, 3pm tan 4pm	<i>Cyfarfod 'paned a sgwrs'</i>
Bore Sul,	14 Gorffennaf	<i>Oedfa pob oed i gynnwys picnic yng ngardd Emaus</i>
Bore Sul,	21 Gorffennaf	<i>Oedfa dan arweiniad Eryl Wynn Davies</i>
Bore Sul,	28 Gorffennaf	<i>Oedfa dan arweiniad y gweinidog</i>

BLODAU MIS GORFFENNAF


Diolch i Sian Arwel
ac Anwylyd Jones
am ofalu fod blodau
ar gyfer oedfaon Mis Mehefin.

MIS GORFFENNAF
Gorffennaf 7 ac 14
Nia Llwyd
Gorffennaf 21 a 28
Sian Arwel



*Diolch yn fawr i bawb
sydd wedi rhoi eu henw
ar gyfer rhoi blodau
yn ystod 2024.
Mae'r rhestr bellach yn llawn!*

Diolch



Kath a Meriel

Kath Jones 01248 353313

Meriel 01248 352205 neu merielparry@gmail.com

DIOLCH

Mae ein diolch y mis yma i Meriel Parry
am annog amryw i gyfrannu ac am gydlynw'r deunydd ar gyfer y rhifyn yma
Diolch i bawb a fu'n ufudd i'w chais ac a anfonodd gyfraniad.

NEGESYDD AWST a MEDI

Dylid gyrru eitemau ar gyfer rhifyn AWST a MEDI y Negesydd
at olygydd y rhifyn, Gareth Ffowc Roberts erbyn 21 GORFFENNAF

e-bost: ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com

gyda chopi(cc) i'r Negesydd

e-bost: negesydd@btinternet.com

Rhai o flodau yn ein gardd yn ystod y mis

Eleni 'dwi wedi sylwi fod gennym rai blodau, anhysbys i mi, yma ac acw yn yr ardd ac ar hyd y dreif .

'Roeddwn i ddim yn adnabod y blodyn cyntaf yma o'r blaen ond mae Eirwyn wedi fy ngoleuo erbyn hyn. Yr enw gwyddonol swyddogol (Lladin) yw ***Silene dioica*** a'r enw Saesneg yw *Red Campion*.

Mae yn flodyn gwyllt prydferth gyda nifer fawr o enwau cymraeg lleol gan gynnwys *Gludlys Coch*, *Blodeuyn Rhudd*, *Blodyn Crach*, , *Blodyn Taranau*, *Blodyn y Neidr*, *Botwm Mab Ieuan*, *Ceillog Coch*, *Coch y Taranau*, *Blodeuyn Rhudd*, *Lluglys Ysgar*, *Llys yr Ychain*, *Llys yr Ychen*, a *Llysiâu Robin*.

Dau flodyn gwyllt prydferth arall yw'r *Pabi Coch* ***Papaver rhoeas***

a'r *Pabi Cymreig* ***Meconopsis cambrica***

Dau flodyn *Babi Coch* oedd gennym y flwyddyn diwethaf ond maent wedi treblu eleni, ac mae'r coch llachar yn codi calon.

Fel y mae'r enwau Lladin yn dangos, mae'r *Pabi Cymreig* o rywogaeth wahanol i'r *Pabi Coch*, hefyd mae amrywiaeth lliw o felyn neu oren.

Mae'r ***Pelargonium*** - *Mynawyd y Bugail* wedi goroesi'r gaeaf eleni, mae'n debyg am fod y tymor wedi bod mor dyner.

Mae'r blodyn cyntaf wedi agor ar yr ***Hydrangea*** - *Blodau'r enfys* neu *Tri lliw ar ddeg* ond mae cannoedd o flagur ar y llwyni i gyd!

Mae gennym roslyn coch yn tyfu trwy lwyn y ***Viburnum*** -*Gwifwrnwydden* hefyd, ac am na allaf gyrraedd ato, rhaid iddo gymryd ei siawns ac mae'r blodau yn lluosu'n y fan honno hefyd!

Siân Arwel



SILENE DIOICA



PAPAVER RHOEAS



MECONOPSIS CAMBRICA



HYDRANGEA

EGLURHAD

Y rheswm dros ddefnyddio enwau Lladin ar blanhigion ac anifeiliaid yn hytrach nag enwau lleol amrywiol yw eu bod yn safonol drwy'r byd e.e. fe fuasai pob botanegydd yn y byd, beth bynnag fo ei iaith yn gwybod yn union pa blanhigion ydy *Meconopsis cambrica*.

GENI

*Ar y 3ydd o Fehefin ganwyd merch i Hedd a Joanna Carden
yn Ysbyty Cyffredinol, Leeds.*

Mae Nia yn chwaer i Awen sy'n ddyflwydd .

Yn amlwg, fe fydd gan Hedd lond ei ddwylo gyda'r ddwy!

Mae Alison yn nain falch iawn ac yn edrych ymlaen i gael magu Awen a Nia.



Y GENHADAETH

Cynhadledd Ddwieithog Senana Cymru

Eleni, cynhelir yn Nhrefeca o Medi'r 3ydd - 5ed. Nid wyf fi'n gallu mynd y tro hwn ond bydd Eleri Lloyd Jones yno yn ein cynrychioli.

Ar Medi'r 11fed daw Cyfarfod Blynyddol Mudiad y Chwirydd i Ynys Môn a chynhelir y cyfarfod yng Nghapel Tabernacl, Stryd y Dŵr, Llannerchymedd pan ddaw y Parchg. Deb Stammers yn Llywydd.

Dechreuir cyfarfod y Prynawn am 2 o'r gloch gyda Te am 4yp yn Caffi Stesion. Gellir archebu tocyn te am £10 y pen gan Debs erbyn Gorff. 31ain. deb.stammers@btinternet.com / 07949 493219

Yn dilyn bydd Oedfa'r Hwyr am 5.30.

Croeso cynnes i bawb yn wŷr a gwragedd.

Sian Arwel



Sîan Wyn Rees,
Pennaeth
Cymdeithas y Beibl
yng Nghymru,
yn ein croesawu
i Eglwys Beuno Sant
yn Llanycil, Y Bala,
bellach
yn Ganolfan Pererin
Mary Jones
sy'n denu ymwelwyr
o bedwar ban byd.

***Bydd adroddiad
llawn
o'r ymweliad
yn rhifyn Awst-Medi
o'r Negesydd***

BEIBL GWAU

ARDDANGOSFA YNG NGHAPEL SHILOH, TREGARTH

***Os na lwyddoch i fynd draw i Dregarth
i weld yr arddangosfa,
dyma luniau islaw o rai o'r golygfeydd oedd i'w gweld.***

Diolch i Delyth Murphy am anfon y lluniau.



Y BEDD GWAG



EMAUS



SACHEUS



Y CLAF DRWY'R TO



POR THI'R PUM MIL



SUL Y BLODAU



CANT O DDEFAID YN ÔL



Y SAMARIAD TRUGAROG



Y SWPER OLAF

LLYFRAU URSULA K. LE GUIN



Pan ofynnwyd i mi am fy hoff lyfr, roeddwn mewn cyfyng gyngor yn syth! Dwi'n hoff iawn o ddarllen ac y mae'n anodd iawn penderfynu ar ffefryn ymysg yr holl lyfrau dwi wedi mwynhau ar hyd y blynyddoedd. Felly dwi wedi dewis sôn am un o fy hoff awduron, sef Ursula K. Le Guin. Americanaes oedd hi, a fu farw yn 2018, a gafodd yrfa ddisglair fel llenor, darlithydd, golygydd a beirniad llenyddol dros chwe degawd - yn ogystal â magu tri o blant! Awdur ffuglen ddamcaniaethol (*speculative fiction*) oedd Ursula yn defnyddio themâu o fyd anthropoleg, ffeministiaeth a seicoleg Jung. Er nad oedd yn grefyddol, roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn athroniaeth Tao a'i phwyslais ar gydbwysedd, cytgord a thyfiant mewnol. Deuthum ar draws llyfrau Ursula yn fy

arddegau, yn benodol y drioleg "Earthsea", cyfres o nofelau ffantasi i blant hŷn. Casgliad o ynysoedd yw Earthsea a'r ynysoedd hynny yn cynnal pobl o ieithoedd a lliw



croen gwahanol. Arwr y llyfrau yw Ged, bachgen brown o ynys ddi-nod sy'n tyfu i fod yn ddewin pwerus ac yn bennaeth ar bob dewin arall. Hyn i gyd, cofiwch chi, ddegawdau cyn i lyfrau Harry Potter ymddangos! Trwy stori bywyd Ged mae Ursula yn trafod pynciau o bwys, megis pwysigrwydd derbyn y drwg yn ogystal â'r da sydd ym mhob un ohonom; rheidrwydd cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd; a'r angen i fod yn garedig wrth eraill yn ddieithriad. Mae diweddglo annisgwyl i'r drioleg wreiddiol (fe ychwanegwyd iddynt dros amser). I achub y byd mae'n rhaid i Ged aberthu ei holl rym fel dewin a throi yn berson cyffredin fel pawb arall. Nid yn unig hynny, mae'n cefnu ar bob anrhydedd a bri gan ddychwelyd i fywyd syml ar ynys wledig ei febyd. Er imi ddarllen y nofelau yn wreiddiol yn fy arddegau, caf yr un boddhad o'u darllen yn oedolyn gyda gwerthfawrogiad dyfnach efallai o ddoethineb a dawn Ursula Le Guin. Nid yw gofod yn caniatáu imi drafod ei nofelau a straeon byrion i oedolion ond mae'r rheini hefyd yn gampweithiau sy'n werth eu darllen.

Eleri Lloyd Jones

CYSTADLEUYDD PRYSUR IAWN

Cafodd Cai Fôn Davies
ddiwrnod prysur iawn ar Sadwrn olaf
Eisteddfod yr Urdd ym Meifod.
Daeth yn 3ydd am gyflwyno
Alaw Werin 19-25 oed,
3ydd ar yr Unawd Cerdd Dant 19-25 oed
ac yn ail yn y gystadleuaeth Llefaru.

Da iawn Cai am barhau i gystadlu.



Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024

Er na fu llwyddiant eleni, fe gafodd Awel ac Ioan ymddangos ar lwyfan yr Eisteddfod ddwy waith. Unwaith yn y Perfformiad Dramatig ac hefyd fel aelodau o gôr Ysgol Y Garnedd.

Gydag Ysgol Llanfairpwll bu Alis yn cystadlu yn y gystadleuaeth i Gôrau Ysgolion Mawr.

Bu Hawys, Nest a Tesni yn cystadlu ar ran Ysgol Tryfan.

Ar yr Unawd dan 19 bu Cian yn cystadlu.

Ymddiheuriadau os oes unrhyw enw heb ei gynnwys ond da iawn pawb a fu'n cystadlu.

Mae sawl Taid a Nain hefyd yn hynod falch o lwyddiant eu hwyron yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn.

Dyma rai ohonynt;

Llongyfarchiadau i ddwy o wyresau Delyth a Dafydd Murphy a fu'n brysur yn cystadlu yn y cerdd dant ym Meifod gan ennill nifer o wobrau. Roeddent yn cynrychioli Adran ac Uwch Adran Aberystwyth yn ogystal ag Ysgol Penweddig.

Gan fod yr Eisteddfod yn eu hardal, bu wyrion Elen a Steve Lansdown sy'n byw ger Llanerfyl yn brysur. Roedd Eldra yn y sioe cynradd, 'Ein Maldwyn Ni' a Nel yn y sioe uwchradd, 'Gewn ni weld sut eith hi'. Buont yn cystadlu hefyd a chafodd Parti Llefaru Ysgol Cwm Banwy y wobwr gyntaf a'r Parti Dawns Werin Blwyddyn 6 ac lau y drydedd wobwr. Roedd eu cyfnither o Gaerdydd, Lili, hefyd yn cystadlu yng nghôr Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd a ddaeth yn gyntaf.

Bu Miriam, wyres Gareth a Menna Roberts yn llwyddiannus mewn dwy gystadleuaeth deuawd gyda'i ffrind Beca ac yn y gystadleuaeth alaw werin unigol dan 15oed. Roedd ei brawd Gwydion yn llwyddiannus am dynnu llun ac ysgrifennu disgrifiad o gymeriad cartwn.



POS YR URDD
MEHEFIN 2024

*Mae 24 logo pedwar lliw
yn bosibl.*

POS GORFFENNAF 2024



POS YR EWROS

*Dychmygwch bod Cymru
yn curu Lloegr
o dair gôl i ddwy.
Faint oedd y sgôr
ar hanner amser?*

Sawl ateb sy'n bosibl?

*Bydd yr ateb
yn rhifyn Awst-Medi*



Cynhelir
y bore coffi
a siop Masnach Deg nesaf
fore Sadwrn
Gorffennaf 6ed
o 10 - 12 o'r gloch.

Hwn fydd y cyfle olaf
i brynu nwyddau tan Medi 7fed.
Fel y cofiwch, cafodd
Transform Trade yr hawlfraint
i ddefnyddio logo *Traidcraft*,
ac maent o'r diwedd wedi ail lansio
te *Traidcraft*.
Bydd ar gael yn y bore coffi nesaf.
Braf yw cael sôn
am *Traidcraft* unwaith eto.

ooOOOoo



SIALENS 76K CATRIN A WES
ER BUDD CYMORTH CRISTNOGOL

Diolch i bawb gefnogodd ein hymdrech.

*Casglwyd £822
at gronfa Wythnos Cymorth Cristnogol.*

Catrin a Wes

CYFEIRIADUR EMAUS

ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:

Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

BMS:

Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

CYTŪN A CHYMORTH CRISTNOGOL:

Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

GWEINIDOG:

y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

MASNACH DEG:

Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

NEGESYDD - CYSODI:

Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

NEGESYDD - ROTA GOLYGU:

Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

PANED A SGWRS

Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

ROTA BLODAU

Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

ROTA'R ORGAN:

Enid Griffiths
712726

SWYDDOG DIOGELU:

Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

TI A FI:

Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

TRYSORYDD:

David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

YSGRIFENNYDD ARIANNOL:

Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:

Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:

Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243